

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

19 Mawrth 2019

Annwyl Janet,

### **Tasglu cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl plant**

Diolch i chi am lythyr y Pwyllgor Deisebau dyddiedig 21 Chwefror 2019, yn tynnu sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at **Ddeiseb P-05-857 - Creu tasglu cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl plant.**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant wedi craffu'n helaeth ar y cymorth iechyd emosiynol a meddyliol sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru dros y 18 mis diwethaf. Roedd y gwaith hwn yn datblygu ymchwiliad a gynhaliwyd gan ein pwyllgor rhagflaenol yn 2013-14 ac arweiniodd at gyhoeddi ein hadroddiad **Cadernid Meddwl** ym mis Ebrill 2018. Mewn ymateb i 'Cadernid Meddwl', sefydlodd Llywodraeth Cymru ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd y Gweinidogion ym mis Medi 2018. Nod datganedig Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion yw cyflymu'r newid sydd ei angen yn y maes hwn, a chyflawni dull ysgol gyfan o hybu iechyd meddwl a llesiant.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, rydw i'n aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel sylwedydd sydd â hawliau cyfranogi llawn, fel y mae Comisiynydd Plant Cymru. Fel Pwyllgor, rydym yn croesawu sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd y Gweinidogion a'i waith. Rydym wedi ymrwymo o hyd, fodd bynnag, i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif o ran cyflawni yn y maes hwn. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyhoedd ein bwriad i fynd ar drywydd gweithredu ein hargymhellion, flwyddyn ar ôl eu cyhoeddi, ac yn ddiweddar rydym wedi **ysgrifennu** at y Gweinidog Iechyd a'r Gweinidog Addysg yn amlinellu ein dull gweithredu.

Rydym yn croesawu pob diddordeb yn y pwnc hwn ac rydym yn awyddus i weithio gyda sefydliadau i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol am ei chynnydd yn y maes. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, bod risg y gallai'r gwaith a amlinellir gan y deisebydd ddyblygu'r ymchwiliad a gynhaliwyd eisoes gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni ei argymhellion drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd y Gweinidogion.


Rydym yn hyderus y byddai cyflawni ein hargymhellion yn ymdrin â'r anghenion a'r gwasanaethau amrywiol sydd eu hangen i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc. Roedd ein hadroddiad yn ystyried pob agwedd ar y llwybr gofal, a'r amrywiaeth o amgylchiadau a wynebir gan blant a phobl ifanc, eu



rhieni, gofalwyr a'r rhai sy'n darparu cymorth iddynt. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o dystiolaeth gan randdeiliaid arbenigol, a siaradwyd yn helaeth â phlant a phobl ifanc i lywio ein casgliadau.

Fel Pwyllgor, rydym wedi datgan yn gyhoeddus ein bod yn credu bod angen gwneud cynnydd yn y maes hwn fel mater o frys. Er ein bod yn cydnabod mai mater i'r ddau Weinidog yn hytrach na'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yw cylch gorchwyl Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion yn y pen draw, byddem yn pryderu pe bai cyflwyno unrhyw gymhlethdod pellach i'w waith yn arafu pa mor gyflym y cyflawnir argymhellion ein hadroddiad 'Cadernid Meddwl'.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**  
**Cadeirydd**

